

CWESTIYNAU CYFFREDIN

C: Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ddangos?

A: **Cliciwch yma.**

C: Beth yw pris y tocynnau?

A: Mae dau bris ar gyfer tocynnau gostyngedig i aelodau Sherman 5: £5 neu £2.50 i bobl dan 25 oed. Nid oes angen i aelodau sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid dalu am docynnau. Ewch i'n tudalen Theatr Noddfa am ragor o wybodaeth.

C: Oes angen i mi archebu'n gynnar?

A: Oes! Bydd nifer cyfyngedig o docynnau ar gael ar gyfer pob sioe am brisiau Sherman 5 i aelodau Sherman 5. Mae tocynnau ar gyfer yr holl berfformiadau yn destun argaeledd a gellir eu prynu ar sail y cyntaf i'r felin.

C: Faint o docynnau gallaf eu harchebu ac ar ran pwy y caf eu harchebu?

A: Gall aelodau Sherman 5 archebu dau docyn i oedolion am brisiau Sherman 5 – nid oes angen i'r oedolyn arall fod yn aelod Sherman 5 o reidrwydd. Ar gyfer sioeau i'r teulu, gall aelodau Sherman 5 archebu dros eu plant ac ar ran un oedolyn arall (nid oes angen i'r oedolyn arall na'r plant fod yn aelodau Sherman 5).

C: A yw'n bosib i grwpiau partneriaid archebu tocynnau?

A: Ydy! Gall y prif gyswllt/porthor ar gyfer grwpiau partner Sherman 5 archebu ar ran grŵp o hyd at wyth am brisiau Sherman 5. Os hoffech archebu tocynnau ar gyfer grŵp o fwy nag wyth mewn nifer, e-bostiwch Claire Bottomley, Cydlynnydd Sherman 5, claire.bottomley@shermantheatre.co.uk neu ffoniwch 07545 210357.

C: A yw'n bosib defnyddio Credydau Amser?

A: Ydy! Gellir defnyddio Credydau Amser Tempo (Spice yn flaenorol) i brynu tocynnau ar gyfer detholiad o berfformiadau – dau Gredyd Amser fesul pob tocyn. Mae nifer cyfyngedig o docynnau Credydau Amser ar gael ar gyfer pob sioe, ac mae cyfyngiad o ddau Gredyd Amser fesul archeb, ac eithrio sioeau teuluol.

C: A yw'n bosib i bobl nad ydynt yn aelodau Sherman 5 ddefnyddio Credydau Amser?

A: Ydy! Nid oes angen i chi fod yn aelod Sherman 5 i ddefnyddio Credydau Amser. Mae'r un rheolau'n berthnasol o ran nifer y tocynnau y gallwch eu prynu ac ar gyfer pwy.

C: Rydw i eisoes wedi archebu tocynnau ond nid am brisiau Sherman 5 – a allaf eu newid?

A: Mae'r cynnig hwn yn berthnasol i archebion newydd ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer sioeau y gallai aelodau eisoes fod wedi archebu tocynnau ar eu cyfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud eich bod yn aelod Sherman 5 wrth archebu eich tocynnau.

C: Sut ydw i'n archebu tocynnau?

A: Ffoniwch aelodau staff cyfeillgar ein Swyddfa Docynnau ar 029 2064 6900 neu dewch i'r Swyddfa Docynnau yn Theatr y Sherman yn bersonol. Os ydych yn aelod o Glwb Byddar y Theatr, e-bostiwch eich anghenion at y Swyddfa Docynnau trwy box.office@shermantheatre.co.uk.

C: Beth sydd angen i mi ei ddweud wrth y Swyddfa Docynnau?

A: Os ydych yn aelod Sherman 5, gadewch i aelodau staff ein Swyddfa Docynnau wybod hyn fel y gallant gadarnhau eich aelodaeth wrth archebu tocynnau, a gwerthu eich tocynnau am bris Sherman 5. Os ydych yn defnyddio Credydau Amser, gadewch i'r Swyddfa Docynnau wybod. Soniwch hefyd wrth staff y Swyddfa Docynnau os oes gennych unrhyw ofynion o ran mynediad (e.e. os byddwch chi neu rywun yn eich grŵp yn defnyddio cadair olwyn neu os hoffech gadw sedd yn ein horiel mynediad).

C: Oes rhaid i mi dalu yn syth?

A: Fel arfer, bydd gofyn i chi dalu am docynnau pan fyddwch yn ffonio, oni bai eich bod yn defnyddio Credydau Amser. Os yw hyn yn peri anhawster, gallwch ei drafod wrth archebu'r tocynnau. Gall aelodau Clwb Byddar y Theatr dalu am docynnau wrth eu casglu.

C: Os ydw i wedi archebu tocynnau, oes angen i mi adael i chi wybod os na fyddaf yn dod?

A: Oes! Gan mai nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael ac rydyn ni eisiau i gymaint o bobl ag sy'n bosib manteisio o Sherman 5, gadewch i ni wybod os oes gennych docynnau ar gadw ond nad ydych chi bellach yn gallu eu defnyddio. Gallwn wedyn eu rhyddhau er mwyn i rywun arall eu prynu. Os nad ydych yn gadael i ni wybod, gallai hyn gael effaith ar eich aelodaeth Sherman 5 a/neu eich gallu i dalu â Chredydau Amser yn y dyfodol.

C: A oes unrhyw berfformiadau mynediad?

A: Oes! Ceir perfformiadau â dehongliad BSL, perfformiadau ag is-deitlau, perfformiadau â disgrifiad sain (gyda Theithiau Cyffwrdd) a pherfformiadau ymlaciol. Am ragor o wybodaeth am Glwb Byddar arobryn y Theatr cliciwch yma.

C: Oes angen fy ngherdyn aelodaeth Sherman 5 arna i o hyd?

A: Nid ydym bellach yn cyhoeddi nac yn defnyddio cardiau aelodaeth Sherman 5. Os oes gennych chi hen gerdyn nid oes angen i chi ei ddangos er mwyn casglu'ch tocynnau gan y bydd eich aelodaeth eisoes wedi'i chadarnhau ar ein system pan fyddwch yn archebu eich tocynnau. [Gan nad yw'r gostyngiad Sherman 5 bellach yn berthnasol i'r bar caffi, nid oes ei angen arnoch ar gyfer hwn chwaith. Mae'r bar caffi yn parhau i gynnig amrywiaeth o fyrbrydau a diodydd fforddiadwy.

C: Ydych chi'n cynnig trafnidiaeth?

A: Byddwn yn cefnogi aelodau Sherman 5 i ymchwilio i amrywiaeth o opsiynau trafnidiaeth a bydd aelodau â gofynion yn cael eu hystyried fesul achos. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion o ran trafnidiaeth fod gennych o bosib.

C: Sut ydw i'n ymuno â Sherman 5?

A: Os ydych yn unigolyn neu'n grŵp cymunedol a hoffech wneud cais i ymuno â Sherman 5, e-bostiwch Claire Bottomley, Cydlynnydd Sherman 5, trwy claire.bottomley@shermantheatre.co.uk